# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 19/05/16

Annwyl Aelod,

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU – 26 MAI 2016**
**ADRODDIAD HWYR**

Atodaf adroddiad hwyr yng nghyswllt yr eitem isod:-

**9. POLISI CLUDIANT: ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** 2 - 7

***Aelod Cabinet: Y Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad gan Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

11.00 – 11.45 a.m.

Yn gywir,

*Glynda O'Brien*

**Swyddog Cefnogi Aelodau**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD** | 26/05/16 |
| **TEITL** | Polisi Cludiant - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **PWRPAS** | Craffu'r adroddiad a pholisi o dan sylw o ran y drefn ariannu cludiant a'r draws yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **AWDUR** | Ceryl Teleri Davies |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod yr angen i osod polisi a threfniadau cludiant newydd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant oherwydd:

- Yr angen i ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn gosod dyletswydd arnom ni fel Cyngor i hybu llesiant ein dinasyddion er mwyn hybu a chefnogi annibyniaeth.

- Awydd lleol yr Adran i hybu ymarfer gwaith cymdeithasol sydd yn canolbwyntio a'r ddatblygu sgiliau ac annibyniaeth ein defnyddwyr gwasanaeth.

**2. Cyflwyniad**

Yn sgil newid yn y ddeddfwriaeth a'r hinsawdd ariannol, bydd angen mabwysiadu polisi cludiant teg a chynaliadwy, Yn amlwg, gall newidiadau gael effaith mewn rhyw fodd neu gilydd ar ddefnyddwyr gwasanaethau ac felly bydd ymgysylltu gyda rhanddeiliad yn rhan allweddol (yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd) o fabwysiadau a gweithredu'r polisi.

Tra bod y rhaglen arbedion sydd wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor yn nodi'r angen i ganfod arbedion o'r gyllideb cludiant, prif bwrpas y newidiadau fydd canolbwyntio ar newid ein diwylliant i gyd fynd gyda'r egwyddorion craidd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru. Mae angen felly gosod meddylfryd ac egwyddorion cadarn i'r dyfodol sydd yn cael ei arwain gan:

- Lesiant ein defnyddwyr gwasanaeth;

- Cyflawni canlyniadau positif i ddefnyddwyr a'u teuluoedd;

- Ymarfer proffesiynol gwrth risg;

- Hybu'r defnydd o adnoddau oddifewn ein cymunedau a'r adnoddau sydd ar gael i deuluoedd.

Nod y rhaglen waith felly yw gosod trefn newydd i Wynedd drwy:

- Ddatblygu polisi cludiant newydd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant;
- Ddatblygu canllawiau ymarfer a chynnwys yr elfen cludiant fel rhan o'r ffurflenni asesu'r Adran;
- Gosod cynsail clir nad yw pellter i wasanaeth o reidrwydd yn gosod 'angen cludiant';
- Adolygu'r sefyllfa bresennol o ran y gyllideb sydd yn cael ei wario a'r costau/pecynnau trafnidiaeth a'r draws yr Adran;
- Sicrhau ac atal dyblygiad o ran taliad am gludiant, er enghraifft, bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn lwfans 'motability' a thaliad llawn gan y Cyngor am gostau cludiant;
- Gosod trefn cludiant gydag ein darparwyr o ran eu contract/rôl fel darparwyr;
- Adnabod dulliau ac ymarfer da o ran hyrwyddo annibyniaeth ein defnyddwyr gwasanaeth o ran materion cludiant;
- Sefydlu gweledigaeth gymesur glir o ran cludiant ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn ymgynghori gyda'r Uned Cludiant Corfforaethol wrth ystyried yr holl opsiynau posib sydd a'r gael er mwyn sicrhau datblygiad darpariaeth cludiant e.e. capasiti sbâr cerbydau fflyd y Gwasanaeth i gyflawni'r cludiant angenrheidiol yn sgil ail asesu pecynnau.

## 3. Ystyriaethau Perthnasol

Nid yw gosod trefniadau tebyg mewn siroedd eraill wedi creu anawsterau o ran mynychu gwasanaethau, yn hytrach mae newidiadau wedi cynnig mwy o hyblygrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

Mae nifer o esiamplau cadarnhaol ble roedd defnyddwyr gwasanaeth wedi darganfod ymateb oddifewn i'w teuluoedd a'u cymunedau o ran cludiant. Yn ogystal, gwelir achosion ble roedd esiamplau o ddefnyddio lwfans 'mobility' o ran cyllido cludiant.

## 4. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Mae angen sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir yn cyfarch anghenion ein defnyddwyr yn unol â'i hasesiad anghenion. Mae'n amserol nawr yn sgil newidiadau cenedlaethol a lleol, yn benodol o ran egwyddorion Ffordd Gwynedd a'r ffocws a'r alluogi, hybu llesiant ac annibyniaeth a chyfarch anghenion gofal a chefnogaeth mewn dull grymusol.

*<u>Proffil Gwynedd: Ein gwariant</u>*

Y gost yn 2015/16 o wir wariant cludiant ar gyfer yr Adran oedd **£531,164** Amlinellir isod dadansoddiad o'r ffigyrau yma ar gyllideb ar gyfer 2016/17:

| Grŵp Gwasanaeth | Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Darparu Mewnol | | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tacsis | Fflyd | Tacsis | Cyfanswm | |
| Pobl Hŷn | 126,657 | 110,237 | 47 | 110,284 | **£236,940** |
| Anabledd Corfforol | 0 | | | 0 | **0** |
| Anabledd Dysgu | 69,397 | 96,843 | 126,663 | 223,506 | **£292,903** |
| Iechyd Meddwl | 0 | | | 0 | **0** |
| Tai | 1,321 | | | 0 | **1,321** |
| **CYFANSWM** | **£197,375** | **£207,079** | **£126,710** | **£333,790** | **£531,164** |

**Cyllideb 2016/17**

| Grŵp Gwasanaeth | Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Darparu Mewnol | | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tacsis | Fflyd | Tacsis | Cyfanswm | |
| **Pobl Hŷn** | 132,410 | 106,100 | 90 | 106,190 | **£238,600** |
| **Anabledd Corfforol** | 0 | | | 0 | **0** |
| **Anabledd Dysgu** | 72,577 | 86,190 | 93,260 | 179,450 | **£252,027** |
| **Iechyd Meddwl** | 550 | | | 0 | **£550** |
| **Tai** | 1,550 | | | 0 | **£1,550** |
| **CYFANSWM** | **£207,087** | **£192,290** | **£93,350** | **£285,640** | **492,727** |

## 5. Camau nesaf

Mae tri opsiwn posib i'w ystyried:

1. Penderfynu peidio â newid ein trefniadau. Ond byddai oblygiadau ariannol a diwylliannol o ran peidio newid ein hymarfer yn y maes yma.

2. Mabwysiadu'r polisi newydd ac ail adolygu pecynnau gofal yn benodol a'r sail y polisi cludiant newydd.

3. Mabwysiadu'r polisi newydd a'r sail pecynnau newydd, ailasesiadau ac adolygiadau blynyddol o becynnau yn hytrach na chynnal adolygiad penodol ar faterion cludiant.

Yn ysbryd y ddeddfwriaeth newydd ac yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol a wynebir gan y Cyngor, nid yw Opsiwn1 yn realistig nag yn gynaliadwy. Bydd rhaid addasu a newid mewn rhyw fodd neu gilydd.

Mae’r Adran yn ffafrio opsiwn 3 gan ei fod yn cyd-fynd gydag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy adeiladu ar gryfderau unigolyn, edrych ac adeiladu a’r gryfderau cymunedol.

Gydag opsiwn 3, byddai’r ffocws ar y pecyn yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chynnal adolygiad cludiant penodol. Ystyrir y byddai Opsiwn 2 yn gofyn i’r Adran adnabod adnodd penodol ychwanegol er mwyn gwireddu’r dasg yma, ac o bosibl yn codi pryderon diangen i ddefnyddwyr a’u teuluoedd.

Yn amlwg, y bwriad cyn mabwysiadau polisi newydd a’i weithredu, byddai angen ymgysylltu gyda rhanddeiliad penodol, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd. Rhaid derbyn na fyddai mabwysiadu newidiadau o reidrwydd yn hawdd, a byddai angen sicrhau trefn glir o ran ymgysylltu er mwyn esbonio a gwireddu’r newidiadau yma gan sicrhau dealltwriaeth ein defnyddwyr gwasanaeth a’u teuluoedd, staff, darparwyr mewnol ac allanol.

Bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu yn Gymorth i’r Aelod Cabinet wrth ystyried cynnwys y polisi drafft ar gyfer ymgysylltu. Yn ogystal, mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda’r Swyddog Cludiant penodol ar gyfer cynllunio gwybodaeth yn amlinellu amrywiaeth o gludiant a’r gael yn lleol.

## 6. Atodiadau

Atodiad 1: Polisi Cludiant Drafft

# Polisi Cludiant - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

## 1. CYFLWYNIAD

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod dinasyddion sydd wedi'u hasesu'n gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn derbyn lefel gwasanaeth gymesur a'u hanghenion sydd wedi'u hasesu. Yn benodol, mae hyn yn berthnasol i'r gofyn posib am gymorth gyda chludiant i'r gwasanaethau hyn. Wrth weithredu'r polisi canolbwyntir ar:

a) Hyrwyddo lles y defnyddwyr gwasanaeth sydd angen gofal a chefnogaeth;
b) Hyrwyddo annibyniaeth;
c) Grymuso defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio cludiant sydd ar gael yn lleol;
d) Grymuso defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio eu cludiant eu hunain;
e) Grymuso defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad at gynlluniau cludiant cymunedol; Caiff rhaglen alluogi ei gweithredu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael mynediad diogel at gynlluniau cludiant cymunedol;
f) Yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn trefnu i gyllido cludiant pan fo defnyddiwr gwasanaeth gydag angen am gludiant wedi'i asesu.

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar egwyddorion a amlinellir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel egwyddor arweiniol, a hyd y nodir yn wahanol, byddwn yn tybio bod defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u hasesu eu bod angen gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn gallu cludo eu hunain i'r gwasanaethau hyn. Mae Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno 'prawf cymhwyster' cyffredinol yng Nghymru er mwyn penderfynu a yw oedolion, plant a gofalwyr yn gymwys i dderbyn cefnogaeth. Bydd unigolyn yn gymwys i dderbyn gofal os yw asesiad yn sefydlu eu bod yn gallu goresgyn rhwystrau i gyflawni eu deilliannau lles drwy i'r awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chefnogaeth iddynt a sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno. Felly, yn gyffredinol, ni fuasem yn darparu gwasanaethau hebrwng na chludiant.

## 2. MEINI PRAWF CYMHWYSTER

Er mwyn i gludiant gael ei drefnu a'i gyllido gennym ni, rhaid i bob defnyddiwr gwasanaeth gael ei asesu i weld p'un a oes ganddynt angen 'cymwys' i dderbyn gofal a chefnogaeth a ph'un ai a ydynt yn gymwys yn unol â'r meini prawf cludiant isod. Bydd trafodaeth am gludiant yn cael ei gynnwys fel rhan o'r 'sgwrs beth sydd yn bwysig' ynglŷn â beth sydd yn bwysig iddynt er mwyn ei helpu i gyflawni eu hallbynnau lles. Bydd cludiant yn cael ei drafod fel rhan o'r 'sgwrs am beth sydd yn bwysig' iddynt gyflawni ei allbynnau lles. Bydd darpariaeth cludiant cymwys yn cael ei gostio fel rhan o gynllun cefnogaeth a chaiff ei adolygu ochr yn ochr â'r holl wasanaethau eraill.

Felly, bydd materion cludiant yn cael ei cynnwys fel rhan o'r asesiad anghenion gyda'r unigolyn a'u teulu, yn penodol o ran ei cryfderau a'r darpariaeth ar gael eu cymuned. Er mwyn cymhwyso i dderbyn darpariaeth cludiant, ystyrir y meini prawf a ganlyn:

a) **Lwfans/Cefnogaeth Motability:** Ni fydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn lwfans symudedd neu sy'n cael defnyddio cerbyd motability yn derbyn cludiant cymorthdaledig oni

DRAFT

bai bod ffactorau'n cyfyngu ar eu gallu i wneud y defnydd mwyaf llawn o'r lwfans/cerbyd, e.e. natur yr anabledd, y math o gadair olwyn neu ofynion cefnogaeth gofalwr. Petai defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr yn dod i'r penderfyniad na fydd cerbyd motability yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd, yna cyfrifoldeb y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr fydd gwneud trefniadau eraill priodol.

b) **Nid yw'r pellter** y mae'n rhaid i ddefnyddiwr gwasanaeth deithio i dderbyn gwasanaeth gyfystyr ag angen am gludiant.
c) **Bydd disgwyl i'r darparwr gofal drefnu'r cludiant i'r defnyddiwr gwasanaeth** os yn byw mewn cartref preswyl/nyrsio, yn byw â chefnogaeth neu mewn tai gofal ychwanegol. Cyfrifoldeb y defnyddiwr gwasanaeth fydd talu'r costau. Dim ond pan mae'n amhosib trefnu cludiant y dylid cyfeirio'r mater yn ôl at yr Adran.
d) **Rheoli Risg:** Yr aseswr fydd yn gyfrifol am gwblhau asesiad risg llawn o anghenion y defnyddwyr gwasanaeth gan adnabod y risgiau posib a gosod mesurau rheoli mewn lle i leihau effeithiau'r risgiau hynny. Y drefn sy'n bodoli yng Nghymru yw nad oes cefnogaeth bersonol ar gael ond i unigolion os y penderfynir na allant ddiogelu eu lles ond drwy dderbyn gwasanaeth o'r fath.

Felly, o ran cludiant bydd y penderfyniad i drefnu a chyllido cludiant yn cael ei gefnogi yn dilyn asesiad llawn o'r anghenion ac asesiad llawn o'r risgiau cysylltiedig fel rhan o broses cynllunio cefnogaeth os gellir cyflwyno tystiolaeth i ddangos y byddai peidio â darparu cludiant yn creu lefel o risg annerbyniol i'r defnyddiwr gwasanaeth ac/neu i'r gofalwr cydnabyddedig. Hefyd, mae angen ystyried y meini prawf yn unol â'u hanghenion a'i chanlyniadau lles.

## 3. Y BROSES APÊL

Ble bo unigolyn yn anghytuno gyda'i asesiad cludiant, gall gyflwyno apêl i'w derbyn o fewn **28 diwrnod** i'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd manylion y dull apelio yn cael eu rhoi i'r unigolyn neu ei deulu/gofalwr gan yr aseswr. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth unigol neu gynrychiolydd y teulu/gofalwr yn cael y cyfle i fynychu'r panel apêl i gyflwyno unrhyw wybodaeth berthnasol. Bydd y panel apêl yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth neu gynrychiolydd ei deulu/gofalwr am ei benderfyniad cyn gynted ac y bo modd ar ôl y gwrandawiad apêl.

Ni fydd y weithdrefn gwynion ond yn dod yn weithredol ar ôl i'r broses apêl cludiant ddod i ben. Os oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth neu ei gynrychiolydd/gofalwr unrhyw sylwadau, pryderon neu gwynion, dylid eu cynghori i gysylltu â'r tîm gofal cwsmer ar 01286 679549 neu gcgc@gwynedd.gov.uk.

DRAFT